



Delfryn
Llwynpiod
Llangeitho
Tregaron
Ceredigion
SY25 6TA

Ffôn/Tel: 01974 298 367
Ffacs/Fax: 01974 298 089
E-bost/E-mail: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
Ffôn symudol/mobile: 07929 970 547

CYFARFOD CYNGOR TREF TREGARON
NOS WENER 12 IONAWR 2018 AM 7.00 O'R GLOCH
YN Y NEUADD GOFFA

COFNODION CYFARFOD IONAWR 2018

1. **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol gan gynnwys Mr Alan Haird, Swyddog Rheoli a Datblygu Prosiectau, Cyngor Sir Ceredigion i drafod y broses ymgynghori i baratoi Cynlluniau Lleoedd ar gyfer y gymuned. Yn dilyn cyflwyniad Mr Haird, trafodwyd y mater a chytunwyd i gynnal cyfarfod agored gan wahodd Cynghorwyr o gymunedau cyfagos, Clerc i ymchwilio'r dyddiad o ddydd Mawrth 30 Ionawr 2018 am 7.30 efo'r Neuadd Goffa a Mr Alan Haird.

Yn dilyn cyflwyniad Mr Alan Haird derbyniwyd cyflwyniad arall gan Gwern Evans o Siop Rhiannon Cyf am gynlluniau dyfodol Rhiannon Cyf a'i obeithion i hybu'r Dref.

Diolchwyd i'r ddau am ddod i'r cyfarfod.

PRESENNOL: Cyng. David Bennett (Cadeirydd), Karine Davies, Cyng Catherine Hughes, Gwilym Jenkins, Ann Jones, Arwel Jones, Gary Rees a Cyng Rhydian Wilson

2. **YMDDIHEURIADAU:** Cyng Manon Wyn James, June Owens a Cyng Alun Owen

3. **MATERION PERSONOL**

Dymunwyd gwellhad i ferch Cyng Manon Wyn James wedi iddi fod yn sâl iawn yn yr ysbyty yn ddiweddar.

4. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL**

Neb

5. **CADARNHAU COFNODION 8 RHAGFYR 2017**

Cynnig: Cyng Karine Davies

Eilio: Cyng Rhydian Wilson

I'w nodi – Gan fod Cyngor Sir Ceredigion wedi derbyn cadarnhad, o'r Cyngor Tref, i beidio â rhoi llinellau melyn o oddi ar Alwyn House, Pentre lan am Heol Abergwesyn, cytunwyd os fydd yna broblem yn codi yn y dyfodol, ein bod yn ei godi ar gyfer yr adolygiad Cyngor Sir nesaf.

6. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

6.1 Derbyniwyd cyflenwad o sticeri gwahanol feintiau oddi wrth G G Design, clerc i'w doddi ar adeilad toiledau'r mart (wedi derbyn caniatâd oddi wrth Mrs Siân Jones o D A G Jones & Son) ac ar arwyddion tu allan i'r ddwy glwyd yn y parc.

6.2 Diolchwyd i Cyng Catherine Hughes am wneud arolwg gweledol ar y parc dros y mis diwethaf a throsglwyddwyd y cyfrifoldeb i Cyng David Bennett am y mis i ddod. Soniwyd mai dim ond un arolwg gweledol a wnaed yn ystod y mis diwethaf oherwydd y tywydd ac yn y blaen.

6.3 Gofynnir i Cyng Arwel Jones asesu'r twnnel yn y parc a'r sedd y camel yn y parc wedi i Mr Aled Jones gwblhau'r gwaith angenrheidiol.

CADEIRYDD

- 6.4 Gan nad oedd Nigel Callaghan, Technoleg Taliesin yn dod nôl i'r Clerc, wedi iddi geisio nifer fawr o weithiau, gofynnir i'r Cadeirydd gysylltu ganddo i roi pwysau ar lawr-lwytho'r app cyfieithu newydd ar wefan y Cyngor Tref.
- 6.5 Cwmni newydd wedi cymerid drosodd y Ganolfan Hamdden yn swyddogol ers 1af Ionawr 2018 a soniwyd fod angen gwirfoddolwyr i gynorthwyo yn y Ganolfan. Cynhelir y lansiad swyddogol ar 9fed o Chwefror 2018 am 12.30 yp.
- 6.6 Clerc wedi ysgrifennu at Ms Beth Herridge am yr angen i dorri coed o Argoed / Fforest lawr am Abercoed, aros tan y cyfarfod nesaf cyn gwneud y cam nesaf.
- 6.7 Clerc i atgoffa Cyng Alun Owen i gysylltu efo Mr Eifion Davies, Llys Caron i ymgymryd â gwaith cynrychiolydd cynllun llifogydd cymunedol ac i fod yn bwyt cyswllt efo Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 6.8 Yn dilyn marwolaeth yn rheulu Penlan, Tregaron, ni ddychwelwyd y Cadeirydd i drafod ymhellach am y posibilrwydd o ddefnyddio caeau Penlan ar gyfer Eisteddfod 2020.
- 6.9 Ni ymwelodd y fan Llyfrgell a Thregaron ar ddydd Gwener 5ed Ionawr 2018 gan fod gwaith rhoi llyfrau ac yn y blaen nol yn y fan fawr i baratoi hi ar gyfer ymweld yn wythnosol o hyn ymlaen.
- 6.10 Derbyniwyd adroddiad ar lafar gan Cyng Gwilym Jenkins o'r cyfarfod rhwng Cynghorau Cymuned a Thref a gynhelir yn Llambod ar 9fed o Ionawr 2018.
- 6.11 Ni dderbyniwyd ymateb i gais am sedd wag ar gorff llywodraethol Ysgol 3-16 Henry Richard.
- 6.12 Derbyniwyd adroddiad ar lafar oddi wrth Cyng Karine Davies i'r holiadur 'Rhwydwaith Trawma Mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys', cytunwyd i'r awgrymiadau a amlinellir a gofynnir i Cyng Karine Davies bostio'r holiadur yn ôl iddynt.
- 6.13 Cyng Catherine Hughes wedi derbyn cadarnhad fod aelod cabinet yn edrych mewn i'r sefyllfa am yr 'Ystwyth Trail'.
- 6.14 Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth Cyng June Owens fod yna ddau fag o grit yn weddill yn garej Alwyn Evans. Cytunwyd i'r Clerc drosglwyddo rhestr o'r biniau grit i Noel Jones a gofyn iddo ei llenwi yn ôl yr angen.
- 6.15 Derbyniwyd ymateb oddi wrth Mr Gerwyn Jones, Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Amgylcheddol Lleol, Cyngor Sir am ganiatâd i Mr Noel Jones ymgymryd â'r gwaith o chwistrellu chwyn yn y Dref. Ni dderbyniwyd caniatâd i ymgymryd â'r gwaith gan fod angen hyfforddiant a thryweddau priodol.

7. **CYFRIFON**

- 7.1 Cyflog Gweithiwr Strydlun £144.00
- 7.2 Cyflog Clerc £237.60
- 7.3 Aled Jones £80.00
- 7.4 G G Design £30.58
- 7.5 P R Methuen (coeden Nadolig) £30.00
- 7.6 L & G Forestry (coeden Nadolig) £234.00
- 7.7 Costau Etholiadau £162.30 (fydd yn cael ei dynnu allan o'r praesept 2018/19)
- 7.8 HMRC NIC/TAX £108.00

Soniwyd fod y seren ar ben y goeden ddim yn gweithio bellach ac angen adnewyddu cyn Nadolig 2018.

Cynnig: Cyng Arwel Jones

Eilio: Cyng Gary Rees

8. **ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN**

Wedi glanhau'r arwyddion glas mewn i Dregaron a chasglu'r dail sydd wedi cwmpo.

Eisiau glanhau'r ardal o dan feinciau yn Nhregaron i gyd.

Angen asesu faint o grit sydd yn weddill yn y biniau grit a threfnu bod nhw'n cael eu llenwi yn ôl yr angen.

9. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Dim i'w gofnodi.

10. **CANIATAD CYNLLUNIO**

Dim i'w gofnodi.

11. **CYNGOR SIR CEREDIGION**

11.1 Cylchredwyd poster drwy e-bost i hysbysu bod Cyngor Sir Ceredigion yn gallu casglu eitemau trydanol yn rhad ac am ddim.

11.2 Bu'r Is-gadeirydd, Clerc, Cyng Karine Davies a Cyng Catherine Hughes yng nghyfarfod rhwng aelodau'r Cyngor Sir Ceredigion a chynghorau cymuned a Thref yn Llambod ar nos Fawrth 9fed o Ionawr 2018 am 6.30 yh. Derbyniwyd adroddiad ar lafar o'r Is-gadeirydd. Cynhelir hyfforddiant i'r system 'Gwasanaethau Cwsmeriaid – Clic Ceredigion cyn diwedd mis Mawrth i'r Clerc a'r cynghorwyr.

12. **UN LLAIS CYMRU**

12.1 Derbyniwyd llythyr o gyflwyniad i'r Cadeirydd newydd o Un Llais Cymru, Cyng Mike Cuddy, cylchredwyd y llythyr er gwybodaeth drwy e-bost.

12.2 Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru ar 24 Ionawr 2018, Cadeirydd yn bwriadu mynychu.

13. **CINIO BLYNYDDOL**

Trafodwyd y cinio blynyddol a chytunwyd i'w ganslo gan nad oedd yna ddigon o gynghorwyr yn medru mynychu.

14. **GOHEBIAETH**

14.1 Derbyniwyd gwybodaeth fod y bws Macmillan yn mynd i ymweld â Thregaron ar 01.02.2018 rhwng 8.30-4yp – soniwyd fod yna angen iddynt hysbysu'r ymweliad yn fwy.

14.2 Cylchredwyd manylion a rhestr o gyfarfodydd 'Croeso Cambrian Mountains Welcome 2018' drwy'r e-bost.

14.3 Derbyniwyd llythyr o gyflwyniad oddi wrth Ben Lake AS a chyflenwad o bosteri i'w harddangos oddi amgylch y Dre.

14.4 Llythyr wedi'u dderbyn oddi wrth Arwel Jones, Ray Williams, Cyd ysgrifenyddion Cymru – Ohio 2018 yn egluro'r dathliadau dau canmlwyddiant 22-30 Mehefin 2018 a chais yn gofyn am gymorth ariannol. Trafodwyd y cais ond chytunwyd i beidio â'i gefnogi.

15. **UNRHYW FATER ARALL**

15.1 Yn absenoldeb PCSO John Evans, derbyniwyd ei adroddiad trwy law'r cler.

15.2 Derbyniwyd adroddiad ar lafar oddi wrth Cyng Catherine Hughes am sefyllfa diwedddara ynglŷn â Phrosiect Cylch Caron.

15.3 Derbyniwyd llun o dystiolaeth am y cerbydau oedd yn parcio wrth ymyl Llew Coch ac yn pwyso allan i'r ffordd a dros y palmant sydd o flaen Llew Coch. Gofynnir i'r cler anfon y llun ymlaen i'r Cyngor Sir fel tystiolaeth ac ymchwilio mewn i berchnogaeth y palmant tu allan i'r adeilad. Clerc i ofyn i PCSO John Evans i gynorthwyo efo'r mater parcio.

15.4 Derbyniwyd adroddiad am Ffair Garon a'r posibilrwydd o fethu cynnal ffair yn 2018 gan fod y pwyllgor yn methu bod yn bresennol oherwydd pwysau gwaith.